Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales



# Adroddiad Blynyddol
## 2022/2023

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cynnwys

Rhagair 3

Ein Blwyddyn mewn Ymchwil 4

Cyflawniadau Ymchwil 5

Pobl mewn Ymchwil: ymgysylltu a chynnwys y cyhoedd, cleifion a'n staff mewn ymchwil 7

Edrych i'r Dyfodol 10

+44 (0) 2920 230 457

YmchwilIechydAGofal@wales.nhs.uk

www.YmchwilIechydAGofalCymru.org

@YmchwilCymru

# Rhagair


**Bob dydd, mae ymchwil i iechyd a gofal cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ac i gymunedau ledled Cymru. Mae rôl hanfodol ymchwil dda mewn gwella gwasanaethau a deilliannau iechyd a gofal wedi'i hen sefydlu, ac mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n bodoli i hybu, cefnogi a darparu trosolwg ar y cyd o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau ei bod o'r ansawdd gwyddonol rhyngwladol uchaf, ei bod yn berthnasol i'r anghenion a'r heriau ar draws y sector yng Nghymru, a'i bod yn gwneud gwahaniaeth i bolisi ac arfer mewn ffyrdd sy'n gwella bywydau cleifion, pobl a chymunedau.**

Roedd hi'n bleser mawr iawn gennyf gymeradwyo cynllun Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer 2022-2025 yn gynharach eleni, sy'n manylu ar agenda glir a heriol ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal, ac sy'n sicrhau bod Cymru'n chwarae rhan lawn yn yr agenda ymchwil ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Er bod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn hynod heriol, oherwydd pwysau ar systemau iechyd a gofal yn ystod y pandemig COVID-19 ac wedyn, maent hefyd bod yn hynod foddhaus, gan ein bod wedi gweld cyfraniad ymchwil at ein gallu i ymateb i'r pwysau hynny gyda diagnosteg, triniaethau, llwybrau gofal a gwasanaethau newydd a gwell.

Heb bobl ddawnus yn rhoi o'u hamser a'u hymdrech i ymchwil ledled Cymru, ni fyddem erioed wedi gwireddu'r buddion rydym wedi'u cyflawni ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rwyf mor ddiolchgar i bob un unigolyn sydd wedi cyfrannu at ymchwil Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf – o'r ymchwilwyr sy'n gweithio mewn prifysgolion a byrddau iechyd, i glinigwyr wrth eu gwaith ym mhob proffesiwn, i reolwyr ac uwch arweinwyr, gan gynnwys aelodau o fyrddau iechyd, nyrsys ymchwil, ymarferwyr gofal cymdeithasol a staff cefnogi a chyflenwi sy'n gwneud i ymchwil ddigwydd – mae pob un ohonoch chi wedi chwarae, ac yn parhau i chwarae, rhan hanfodol yn llwyddiant ein hymchwil.





**Eluned Morgan AS**
Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

# Ein Blwyddyn mewn Ymchwil

**Am y ddwy flynedd gyntaf o fy amser fel Cyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'n anochel mai'r pandemig COVID-19 oedd prif destun ein sylw a'n hadnoddau wrth i ni geisio cyfrannu at yr ymdrech ymchwil ledled y DU. Gallwn fod yn falch o'r rhan y bu ymchwilwyr a darparwyr iechyd a gofal Cymru'n ei chwarae yn datblygu tystiolaeth o'r radd flaenaf i fynd i'r afael â'r clefyd ei hun ac i ddelio â'i effeithiau ehangach yn ein cymdeithas.**

Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gallu mynd yn ôl at feddwl am sut y gallwn ni wella ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru, a sut y gellid manteisio ar ein profiadau yn ystod y pandemig – pan roeddem yn gallu cydlynu ymdrechion ymchwil, chwalu rhwystrau traddodiadol rhag cydweithredu, trawsnewid disgwyliadau o ran cyflenwi ymchwil a chyflenwi canlyniadau ymchwil yn gyflymach nag erioed – yn y byd ar ôl y pandemig.

Buom yn ymgynghori ar **Mae ymchwil yn bwysig: ein cynllun ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru**, ei ddrafftio a'i gyhoeddi. Mae hwn yn manylu ar gynllun gweithredu tair blynedd – ac nawr rydym yn canolbwyntio ar gyflawni'r hyn a addawyd yn y cynllun hwnnw.

Gwnaethom ddechrau'n dda yn 2022/23, ac mae'n werth atgoffa ein hunain yn union pa mor bell rydym wedi dod yn barod.





**Yr Athro Kieran Walshe**
Cyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Gwnaethom lansio Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, dan arweinyddiaeth ei chyfarwyddwr, yr Athro Monica Busse – canlyniad gwaith ar yrfaoedd ymchwil, a ddygodd sylw at yr angen am ddull mwy cyd-drefnus o fynd ati i ddatblygu a chefnogi gyrfaoedd ar bob lefel. Gwnaeth yr adroddiad, Hyrwyddo gyrfaoedd mewn ymchwil: adolygiad o gyfleoedd ar gyfer gyrfaoedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar ddechrau 2022, fanylu ar agenda uchelgeisiol a chynhaliodd y Gyfadran newydd ei chyfarfod cyntaf ar gyfer aelodau (y rheini fu'n ddeiliaid amrywiaeth o wobrau gyrfaoedd ymchwil personol, fel cymrodoriaethau ac ysgoloriaethau, a deiliaid presennol y gwobrau hyn) ym mis Medi 2022. Ers hynny, mae nifer ac amrywiaeth y gwobrau personol wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae cysylltiadau Cymru â'r rheini yn y DU sy'n ariannu gwobrau o'r fath wedi'u cryfhau.

Gwnaethom adeiladu ar lwyddiant Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Mae eu **hadroddiad gwaddol** yn dangos yn wych sut y bu'n cefnogi penderfynwyr yn ystod y pandemig. Rydym hefyd wedi ymrwymo i fuddsoddi mwy na £7 miliwn dros y pum mlynedd nesaf yng **Nghanolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**, a lansiwyd yng ngwanwyn 2023 dan gyfarwyddiaeth yr Athro Adrian Edwards. Mae'r Ganolfan – sydd â'r mantra "cwestiynau da, wedi'u hateb yn gyflym' – eisoes yn darparu tystiolaeth ymchwil hanfodol i Weinidogion a phenderfynwyr eraill yn Llywodraeth Cymru ac arweinwyr yn y GIG a'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru i fynd i'r afael â heriau iechyd a gofal cymdeithasol.

# Ein Blwyddyn mewn Ymchwil

Gwnaethom gyhoeddi'r **Strategaeth Ymchwil Canser Cymru (CReSt)** gyntaf erioed i gael ei chydlynu, ar y cyd â Rhwydwaith Canser Cymru a Chanolfan Ymchwil Canser Cymru, yn ogystal â chleifion a grwpiau buddiant eraill, gan ddod â'r gymuned ymchwil at ei gilydd i ganolbwyntio ar chwe maes allweddol lle y mae gan ymchwil yng Nghymru hanes o ragori, a lle y gallwn ni wir gyfrannu ar safon y DU a safon ryngwladol. Y chwe maes yw oncoleg fanwl a mecanistig, imiwno-oncoleg, radiotherapi, treialon clinigol canser, oncoleg liniarol a chefnogol, ac astudiaethau ymchwil seiliedig ar y boblogaeth mewn atal, diagnosis cynnar, gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd. Rydym yn buddsoddi £1 miliwn ychwanegol trwy Ganolfan Ymchwil Canser Cymru mewn rhoi'r strategaeth hon ar waith.





Gwnaethom nodi bwlch pwysig iawn mewn ymchwil i ofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru, a cheisiwyd llenwi'r bwlch hwn drwy sefydlu **Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion (CARE)** gyda chyllid oddi wrth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ochr yn ochr â chydfuddsoddiad a chefnogaeth oddi wrth Brifysgol Caerdydd. Diben y ganolfan newydd yw bod yn adnodd allweddol ar gyfer y rheini sy'n llunio polisi gofal sylfaenol ac yn ei arwain, a dod yn ganolfan rhagoriaeth mewn ymchwil gofal cymdeithasol oedolion yn y DU ac ar lefel ryngwladol.

Buom yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y GIG, addysg uwch, partneriaid cynnwys ac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, arianwyr ac eraill i ddatblygu a chydgynhyrchu **fframwaith newydd ar gyfer ymchwil a datblygu yn y GIG**. Ei fwriad yw amlinellu 'sut olwg sydd ar ragoriaeth ymchwil' o fewn sefydliadau'r GIG yng Nghymru, lle y mae ymchwil yn cael ei chofleidio, yn dod yn rhan o wasanaethau ac yn rhan graidd o ddiwylliant y sefydliad. Mae ymchwil yn rhoi'r cyfle i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth fanteisio ar driniaethau a gwasanaethau newydd, a fydd yn gwella'u hiechyd a'u llesiant, ac yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd yn y boblogaeth gyffredinol.



# Cyflawniadau Ymchwil

## Cyflenwi ymchwil

**20,923**
o gyfranogwyr wedi'u recriwtio i astudiaethau ymchwil o ansawdd uchel

**229**
o astudiaethau gweithredol wedi'u noddi'n fasnachol

**623**
o astudiaethau ymchwil gweithredol anfasnachol o ansawdd uchel

## Canolfannau rydym yn eu hariannu

**£66.5m**
o grantiau wedi'u hennill

**266**
o swyddi newydd wedi'u creu

**950**
o gyhoeddiadau ymchwil

## Cynlluniau rydym yn eu hariannu

Cyfanswm **£4.472** miliwn

- **5** o ddyfarniadau Cymrodoriaeth Gofal Cymdeithasol — **£1.59** miliwn
- **7** Cynllun Ariannu Ymchwil: Grantiau Ymchwil Iechyd — **£1.32** miliwn
- **3** o ddyfarniadau Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB) Cymru — **£652,000**
- **8** o ddyfarniadau Ysgoloriaeth Ymchwil PhD Gofal Cymdeithasol — **£448,000**
- **6** o ddyfarniadau Amser Ymchwil y GIG — **£462,000**

# Pobl mewn Ymchwil: ymgysylltu a chynnwys y cyhoedd, cleifion a'n staff mewn ymchwil

**Yma yng Nghymru, mae gennym gyfoeth o bobl hynod ddawnus yn dylunio ymchwil, yn cymryd rhan ynddi ac yn ei hwyluso. Mae'n bwysig ein bod yn dathlu'r bobl sydd y tu cefn i ymchwil sy'n newid bywydau, a dyma lond dwrn yn unig ohonynt:**

Mae **Dr Leigh Sanyaolu** yn feddyg teulu yn Nhorfaen ac yn Gymrawd Doethurol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru/ NIHR ym Mhrifysgol Caerdydd a Chanolfan PRIME Cymru. Mae'n aelod o Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sydd wedi ei gefnogi ar ei drywydd i ddod yn arweinydd ymchwil yn y dyfodol.

Mae ei ymchwil ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar y driniaeth ar gyfer Heintiau'r Llwybr Wrinol (UTIs) rheolaidd mewn menywod ac ar wella'r defnydd o wrthfiotigau hirdymor trwy ddatblygu cymorth i wneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hyn yn rhoi opsiynau seiliedig ar dystiolaeth i gleifion i gefnogi'r broses penderfynu ar y cyd ynglŷn â'u Heintiau'r Llwybr Wrinol rheolaidd.



Gan ddefnyddio banc data SAIL i adolygu pa mor gyffredin ydy Heintiau'r Llwybr Wrinol rheolaidd yng Nghymru, pa mor gyffredin yw defnyddio gwrthfiotigau hirdymor a pha mor aml y mae bacteria yn yr wrin yn gwrthsefyll gwrthfiotigau yn y grwpiau hyn, mae'n cymryd camau pwysig tuag at wella gofal cleifion yn y maes hwn.

Meddai: "Fel meddyg teulu, dwi'n gweld drosof fi fy hun sut y mae Heintiau'r Llwybr Wrinol yn effeithio ar fenywod. Dwi'n frwd dros sut y gallai'r ymchwil hon arwain at effeithiau sylweddol oherwydd llai o heintiau acíwt, gwell defnydd o wrthfiotigau hirdymor, llai o ymwrthedd i wrthfiotigau, ac arbedion costau i'r GIG, a dwi'n falch fy mod i yng nghanol hyn i gyd yma yng Nghymru."

Mae **Anthony Cope** yn aelod gweithredol o gymuned cynnwys y cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sy'n defnyddio'i brofiad bywyd i helpu ymchwilwyr i lunio a chyflenwi ymchwil ledled y wlad.

Mae Anthony wedi bod yn ymwneud â chynnwys y cyhoedd ers 2021, ac ymddiddorodd mewn ymchwil gyntaf yn ystod y pandemig COVID-19, fel ffordd o ddefnyddio'i sgiliau ar ôl cyfnod maith o afiechyd. Fe fynychodd rai digwyddiadau a chymryd rhan mewn galwadau Zoom gydag ymchwilwyr, yn cynnig ei gyngor ar brosesau a dogfennau cleifion ac roedd yn teimlo'i fod yn gwneud gwahaniaeth i'r dirwedd ymchwil yng Nghymru.

Ers ei ychydig fisoedd cyntaf, mae wedi mynd ymlaen i gynrychioli'r cyhoedd ar amrywiaeth o brosiectau a byrddau, gan gynnwys Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, trwy Bobl mewn Ymchwil (PâR), gan estyn ei ymwneud yn genedlaethol trwy Ymchwil Data Iechyd y DU (HDR-UK) a datblygu modiwl Profiad Bywyd yn King's College Llundain. Bu hefyd yng Ngŵyl Gwyddoniaeth Hull a hyd yn oed yn Nhŷ'r Arglwyddi.



Meddai Anthony: "Mae cynnwys y cyhoedd mor foddhaus. Mae wedi caniatáu i mi gyfarfod â llawer o bobl newydd ac mae'n mynd â mi i leoedd doeddwn i erioed wedi breuddwydio y buaswn i'n mynd iddyn nhw. Dwi wir yn teimlo fy mod i'n gwneud gwahaniaeth: bod pobl yn fy ngwerthfawrogi a fy mod innau'n ychwanegu gwerth."

Mae'r **Athro Ceri Battle** yn Academydd Clinigol sy'n gweithio fel Ffisiotherapydd Anadlol Ymgynghorol yn Ysbyty Treforys, ac yn Athro Anrhydeddus mewn Trawma a Gofal Brys yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe.

Mae'r Athro Battle yn Hyrwyddwr Ymchwil NIHR-CAHPR ac mae'n cydarwain CAHPR Cymru, a sefydlodd yn ystod y pandemig COVID-19 i hybu a chefnogi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yng Nghymru.

Mae hi wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau Cymrodoriaeth Ymchwil Iechyd y mae Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n ei hariannu, gyda rheoli trawma corfforol ar y frest yn brif ddiddordeb ymchwil iddi. Mae hi'n Brif Ymchwilydd tair astudiaeth y mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n eu hariannu (STUMBL, Co-PACT ac ELECT) ac yn gydymgeisydd ar nifer o astudiaethau gofal critigol sydd wedi'u hariannu.

Mae hi'n Athro Anrhydeddus mewn Trawma a Gofal Brys ym Mhrifysgol Abertawe; y fenyw gyntaf yng Nghymru a'r bedwaredd yn y DU i gael swydd o'r fath. Mae ganddi hefyd swydd uwch ddarlithydd anrhydeddus ym Mhrifysgol Queen Mary Llundain ac yn addysgu'n rhyngwladol ar reoli trawma ar y frest. Mae hi hefyd yn Gydarweinydd Arbenigedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer Trawma a Gofal Brys.

Meddai: "Mae ymchwil yn golygu ein bod ni'n gwybod sut i wneud hyn yn ddiogel ac mor effeithiol â phosibl. Dwi'n gwneud ymchwil oherwydd bod angen hyn i'n helpu ni i ddod o hyd i ffyrdd gwell o drin cleifion a gwella ein ffordd o ofalu am bobl yn y tymor hir."



**Athro Marcela Votruba** ydy Arweinydd Arbenigedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer Offthalmoleg. Mae hi'n wyddonydd clinigol sy'n arbenigo mewn clefyd etifeddol y llygaid ar y retina a'r nerf optig, ac mae ei harfer yn y byd go iawn yn cynnwys diagnosis clinigol a genetig, rheoli a thrin cleifion.

Mae hi'n eiriolwr brwd dros gleifion â chlefydau anghyffredin a thros ddatblygu therapïau newydd ar gyfer clefyd etifeddol y llygaid.



Mae'n gwneud ymchwil a threialon clinigol masnachol ac academaidd ym maes geneteg, celloedd a bioleg molecwlaidd. Ar hyn o bryd, mewn astudiaeth sydd wedi'i hariannu gan Fight for Sight, mae'n edrych ar sut a pham y mae celloedd ganglion yn cael eu colli mewn Niwropatheg Optig Etifeddol Leber, sy'n achosi i'r nerf y tu ôl i'r llygad ddirywio.

Meddai: "Unwaith y byddwn ni'n cael gwell syniad o'r broses hon fe fyddwn ni mewn sefyllfa well o lawer i dargedu triniaethau newydd ar gyfer y clefyd hwn sy'n gwneud pobl yn ddall."

Fel un o 31 o Arweinwyr Arbenigeddau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Athro Votruba yn hyrwyddo cyflenwi ymchwil trwy adeiladu rhwydweithiau o ben ymchwilwyr a chefnogi ymgymryd ag astudiaethau ledled Cymru.

Mae **Beth Hales** yn glaf o Benarth sy'n rhan o astudiaeth sy'n ymchwilio i sut i gyflymu diagnosis o endometriosis trwy wella sgyrsiau â meddygon teulu a sut i adnabod y symptomau.

Cafodd Beth ddiagnosis o endometriosis yn 2015 ar ôl bron 20 mlynedd o ddioddef o symptomau ac mae wedi bod wrthi'n ymgyrchu dros fwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r cyflwr.

Fel rhan o'r astudiaeth, o'r enw **Adolygiad realydd ar y defnydd amrywiol o offer adrodd ar symptomau i gefnogi diagnosis amserol o endometriosis a gwneud penderfyniadau ar y cyd**, fe fydd yn rhoi o'i harbenigedd trwy brofiad personol o endometriosis. Bydd hyn yn cynnwys cynghori'r prif ymchwilydd ar ddod o hyd i lenyddiaeth lwyd berthnasol, ar ddatblygu damcaniaethau a fydd yn llunio fframwaith gwerthuso ac ar strategaeth ledaenu.

Yn ogystal ag ymchwilwyr a staff cyflenwi, mae cyfranogwyr yn rhan annatod o'r siwrnai ymchwil ac ni fyddai'n  bosibl gwneud yr ymchwil hon sy'n newid bywydau hebddynt.

Meddai: "Diolch i ymchwil fel hon, mi alla' i roi tawelwch meddwl i'm merched y bydd pethau'n wahanol ar gyfer eu cenhedlaeth nhw, fel na fydd yn rhaid iddyn nhw fynd trwy'r frwydr hir am ddiagnosis a thriniaeth sy'n wynebu cleifion ar hyn o bryd"



# Edrych i'r Dyfodol

**Er ein bod wedi cymryd camau mawr tuag at roi Mae ymchwil yn bwysig: ein cynllun ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru, ar waith, mae yna lawer ar ôl i'w wneud.**

Rydym nawr yn gweithio i adolygu a gwella'r ffordd o gyflenwi ymchwil glinigol yn y GIG, ac i gryfhau ein cysylltiadau ymchwil â'r diwydiant. Rydym yn rhoi Fframwaith Y&D y GIG ar waith gyda phob ymddiriedolaeth a bwrdd iechyd, ac yn lansio rownd newydd o gyllid seilwaith ar gyfer canolfannau ac unedau, gan gynnwys rhai buddsoddiadau catalytig mewn canolfannau ymchwil newydd. Rydym hefyd yn lansio cainc newydd a gomisiynir o'n cynlluniau ariannu ymchwil ac yn cyhoeddi galwadau cyllid yn amlach, ac rydym yn ehangu mynediad ymchwilwyr Cymru i raglenni ariannu y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal yn eu rheoli.

Ar lefel y DU, mae yna lawer o ddatblygiadau pwysig lle y mae yna daer angen i Gymru gadw i fyny â'n partneriaid yn y tair gwlad arall; mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gysoni trefniadau cyflenwi ymchwil ledled y DU, meithrin capasiti a gallu yn y gweithlu ymchwil ar draws y GIG, gofal cymdeithasol a phrifysgolion, a chwarae ein rhan lawn mewn mentrau mawr y DU, fel y Weledigaeth ar gyfer Gwyddorau Bywyd y DU, cytundebau llywodraeth y DU â phartneriaid mawr yn y diwydiant, fel Moderna a BioNTech.

Mae'n dal i fod yn wir nad oes digon o gyllid wedi'i neilltuo ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru o'i chymharu â gweddill y DU – mae'r data yn dangos bod rhyw 55 y cant o fuddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn mynd i Lundain a'r De-Ddwyrain Mawr (gan gynnwys Rhydychen a Chaergrawnt), ac mai Gogledd Iwerddon, Cymru, gogledd-ddwyrain Lloegr a de-orllewin Lloegr yw'r gwledydd a'r rhanbarthau sy'n derbyn y lleiaf o gyllid.

Rydym yn gwneud popeth y gallwn i newid hynny, ac i bledio achos bod angen trosi bwriadau positif adrannau llywodraeth y DU ac arianwyr fel UKRI yn ymrwymiadau pendant i newid mecanweithiau a phrosesau ariannu i wneud iawn am danfuddsoddi yn y gorffennol ac i gydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth wasgaredig mewn gwyddoniaeth. Ar yr un pryd, mae angen i ni i gyd, gan gynnwys arianwyr, y GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol a phrifysgolion yng Nghymru wneud mwy - gan gydnabod bod yn rhaid i ni ganolbwyntio ar ein buddsoddiadau ymchwil mewn meysydd lle rydym wedi dangos rhagoriaeth ymchwil sydd gyda'r gorau mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, a bod yn uchelgeisiol ac yn benderfynol wrth bledio achos dros ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.





**Yr Athro Kieran Walshe**
Cyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Ymchwil heddiw; gofal yfory.

+44 (0) 2920 230 457

YmchwilIechydAGofal@wales.nhs.uk

www.YmchwiliechydAGofalCymru.org

@YmchwilCymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Wedi'i ddylunio gan www.designtribe.co.uk